WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Date issued: 26 Chwefror 2019

Cytundeb Archwilio Cyngor Tref a Chymuned

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 29 Ionawr 2019, yn gofyn am wybodaeth ynghylch Cytundeb Archwilio Cynhgorau Tref a Chymuned. Er hwylustod i chi, rydw i wedi cynnwys eich cwestiynau isod cyn amlinellu ein hymateb.

1. Ym mha ffyrdd ddaru'r Archwilydd Cyffredinol ei wneud yn hysbys i gwmnïau bod contract newydd yn dechrau ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned o 2015/16 ymlaen. ?

Cyhoeddwyd Hysbysiad Contract yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) a thrwy Sell2Wales. Cyn hynny, nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei strategaeth gontractio ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol megis Un Llais Cymru.

2. Gofynnaf am gopi o'r ffurflen dendro ac unrhyw ffurflen arall oedd yn ofynnol i'r cwmnïau ddaru dendro am y gwaith eu llenwi cyn ei bod yn bosib gallu apwyntio cwmni arall o 2015/16.

Rwy'n atodi copïau o'r Holiadur Cyn-Gymhwyso a'r ddogfen dendro. Mae'r rhain yn Saesneg yn unig, sef gofyniad iaith swyddogol yr OJEU.

3. Ai contract 3 blynedd a roddwyd sef 2015/16, 2016/17 a 2017/18 ?

Roedd yn gontract tair blynedd gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd ychwanegol, aoedd wedi ei weithredu.

4. Faint o gwmnïau ddaru gyflwyno tendr ar gyfer y contractau newydd ?

Mynegodd saith ddiddordeb ar draws 3 lot. Cwblhaodd pum cyflenwr holiadur Cyn-gymhwyso ar gyfer archwilio Cynghorau Tref a Chymuned, a gwahoddwyd pedwar o'r cyflenwyr hyn i dendro.

5. Faint oedd cyfanswm y gôst i'r treth dalwr am archwiliad allanol o gyfrifon cynghorau tref a chymuned yn 2015/16, 2016/17 ac 2017/18

Rwyf wedi nodi isod y symiau a dderbyniwyd ym mhob blwyddyn ariannol mewn perthynas â'r symiau a godir i Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer gwaith archwilio.

Mae hyn yn cynnwys gwaith a wneir gan y cwmnïau ac mewn nifer fach o achosion gan staff Swyddfa Archwilio Cymru.

2015-16: £190,521

2016-17: £170,038

2017-18: £195,986

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd rydw i wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth